# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 5

CAFFAEL A DIOGELU ADEILADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG

*Caffael yn orfodol adeiladau rhestredig y mae angen eu hatgyweirio*

PROSPECTIVE

### 138 Gofyniad i gyflwyno hysbysiad atgyweirio cyn dechrau caffael yn orfodol

(1) Ni chaiff awdurdod caffael ddechrau caffael adeilad rhestredig yn orfodol o dan adran 137 oni bai—

(a) bod yr awdurdod wedi cyflwyno hysbysiad atgyweirio i bob perchennog ar yr adeilad,

(b) bod y 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad atgyweirio wedi dod i ben, ac

(c) nad yw'r hysbysiad atgyweirio wedi ei dynnu'n ôl.

(2) Mae hysbysiad atgyweirio yn hysbysiad—

(a) sy'n pennu'r gwaith y mae'r awdurdod yn ystyried ei fod yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer diogelu'r adeilad rhestredig yn briodol, a

(b) sy'n esbonio effaith adrannau 137 i 141 o'r Ddeddf hon ac adran 49 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9)

***Statws** Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 138 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Hydref 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(rhagdybiaeth ynghylch cydsyniad adeilad rhestredig wrth asesu digollediad am gaffaeliad gorfodol).

(3) Os—

(a) yw adeilad rhestredig yn cael ei ddymchwel ar ôl cyflwyno hysbysiad atgyweirio mewn cysylltiad ag ef, ond

(b) bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y byddent wedi cadarnhau neu wedi gwneud gorchymyn prynu gorfodol mewn cysylltiad â'r adeilad pe na bai wedi cael ei ddymchwel,

nid yw dymchwel yr adeilad yn atal caffael safle'r adeilad yn orfodol o dan adran 137.

(4) Caiff awdurdod caffael ar unrhyw adeg dynnu'n ôl hysbysiad atgyweirio y mae wedi ei gyflwyno i unrhyw berson; ac os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo roi hysbysiad i'r person ar unwaith ei fod wedi ei dynnu'n ôl.

(5) At ddibenion is-adran (1) mae awdurdod caffael yn dechrau caffaeliad gorfodol pan fydd yn cyflwyno'r hysbysiad sy'n ofynnol gan adran 12 o Ddeddf Caffael Tir 1981 (p. 67) neu baragraff 3(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 138 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 138 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Hydref 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 138 coming into force by S.I. 2024/860 art. 3(b)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):
– s. 11(3) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(2)
– s. 58(4)(c) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(3)
– s. 88(4) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(4)
– s. 118(2)(f) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(5)
– s. 161(6) inserted by 2024 asc 3 Sch. 3 para. 15(6)